

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Y FENTER TWYLL GENEDLAETHOL

Ysgrifennwyd yr hysbysiad hwn yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data
Cyffredinol a'r ddeddfwriaeth berthnasol

Tim Llywodraethu Gwybodaeth

Lisa Richards

Swyddog Diogeli Data

Sam Bishop/Maria Litchfield

Swyddogion Datgelu Data a Chofnodion

Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN
data.protection@merthyr.gov.uk, 01685 725000

1. GWYBODAETH BWYSIG

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gyfrifol am benderfynu ynghylch y ffordd yr ydym yn dal ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi. Yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol inni dynnu'ch sylw at y wybodaeth sydd yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Nid yw'r hysbysiad hwn yn rhan o unrhyw gontract i ddarparu gwasanaethau. Mae'n bosib y byddwn yn diweddarau'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg. Os gwnawn hynny, byddwn yn sicrhau bod copi cyfoes ohono ar gael i chi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad hwn ynghyd â'n Polisi Safonau Preifatrwydd a'n hysbysiad preifatrwydd llawn sy'n cynnwys rhagor o fanylion ynghylch ein prosesau data a gallwch gael mynediad ato trwy ein gwefan.

Yn ôl y gyfraith mae gofyn i ni warchod yr arian cyhoeddus rydym yn ei weinyddu. Mae'n bosib y byddwn yn rhannu'r wybodaeth a ddarparwyd i ni gyda chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus, er mwyn atal a dod o hyd i dwyll. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cymryd rhan ym Menter Twyll Cenedlaethol Swyddfa'r Cabinet, mae'n weithrediad o baru data er mwyn helpu'r broses o atal a dod o hyd i dwyll. Mae gofyn i ni ddarparu hyn a hyn o ddata i Weinidog Swyddfa'r Cabinet at ddibenion paru data.

Mae paru data yn golygu cymharu cofnodion cyfrifiadurol a gedwir gan un corff yn erbyn cofnodion cyfrifiadurol eraill sy'n cael eu cadw gan yr un corff, neu sy'n cael eu cadw gan gorff arall, er mwyn gweld pa mor debyg ydynt. Fel arfer gwybodaeth bersonol yw hon. Mae paru cyfrifiadurol yn gadel i geisiadau twyllodrus posib gael eu hadnabod. Pan fyddwn yn dod o hyd i debygrwydd yn y data gall fod yn arwydd o anghysondeb sy'n gofyn am archwiliad pellach. Nid oes modd rhagdybio ai twyll, camgymeriad neu esboniad arall sydd ar waith nes bod ymchwiliad wedi ei gynnal.

Yn unol â gofynion Swyddfa'r Cabinet mae gofyn i ni gymryd rhan mewn ymgyrchoedd paru data er mwyn cynorthwyo i atal a dod o hyd i dwyll. Mae gofyn i ni ddarparu casgliadau o ddata penodol i Swyddfa'r Cabinet ar gyfer yr ymgyrchoedd paru hyn, ac mae'r rhain i'w gweld yng [Nghyfarwyddyd Swyddfa'r Cabinet](#). Am wybodaeth bellach ynghylch pwerau cyfreithol Swyddfa'r Cabinet a'r rhesymau dros pam y mae'n paru gwybodaeth benodol, gweler [polisi preifatrwydd Y Fenter Twyll Genedlaethol](#).

2. PWY YDYM NI

Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful yw'r rheolwr data ac felly rydym yn gyfrifol am y data personol rydym yn eu storio. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi ei chynllunio i adnabod twyll o fewn y sector gyhoeddus drwy gyfuno setiau o ddata gyda'r bwriad o amlygu unrhyw gamgymeriadau. Yng Nghymru, cydlynir Y Fenter Twyll Genedlaethol gan Archwilio Cymru ac yna yn genedlaethol gan Swyddfa'r Cabinet, sy'n cael ei ystyried fel rheolwr data.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data ac mae modd cysylltu â'r swyddog gan ddefnyddio'r manylion ar frig yr hysbysiad hwn.

3. Y MATH O WYBODAETH BERSONOL A DDEFNYDDIR

Byddwn efallai'n casglu, defnyddio, storio a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch chi fel a ganlyn:

- Disgrifwyr personol sy'n cynnwys eich enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, dyddiad geni
- Rhifau Adnabod, yn cynnwys eich rhif yswiriant gwladol, rhif cyflogres, rhif SWGCC
- Gwybodaeth gredyd megis eich hanes credyd
- Gwybodaeth ariannol, megis eich manylion banc, incwm yn cynnwys gwybodaeth ynghylch eich hawl i fudd-daliadau
- Gwybodaeth gyflogaeth, megis teitl eich swydd, hanes cyflogaeth, gall hwn hefyd gynnwys, o bosib, os ydych chi'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog
- Gwybodaeth geo-ofodol, megis eich cyfeiriad MAC neu gyfeiriad IP

Efallai byddwn hefyd yn defnyddio a storio data demograffig sy'n darparu cyd-destun i'ch data personol, megis:

- Data ar eich ffordd o fyw, bydd y data hwn yn cynnwys eich statws priodasol, eich nodweddion, eich cymeriad cyffredinol, eich ymddangosiad cyffredinol, eich statws economaidd a chymdeithasol, eich barn bersonol, anghenion dietegol penodol.
- Data sy'n gysylltiedig â'ch bywyd teuluol megis y nifer o bobl sy'n byw yn eich cartref, eich perthnasau, lle mae'ch plant yn mynychu'r ysgol, os ydy'ch plant yn hŷn neu a ydynt yn y brifysgol neu a ydynt wedi symud oddi cartref.

Efallai byddwn hefyd yn prosesu data mwy sensitif megis:

- Gwybodaeth droseddol yn cynnwys manylion arestiadau, dedfrydau blaenorol, cyhuddiadau neu faddeuebau, gwybodaeth am garchar, gwybodaeth am gyfnodau prawf, gallwn hefyd gasglu gwybodaeth o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Gwybodaeth ddiwylliannol
- Gwybodaeth o'r Gwasanaethau Cymdeithasol a all gynnwys os oes gennych blentyn mewn gofal, os ydych yn oedolyn sy'n agored i niwed, os ydych yn ofalwr maeth neu os ydych yn gofalu am aelod o'ch teulu, gwybodaeth am eich cynllun gofal a gwybodaeth am anghenion addysgol arbennig ayyb.

Date 1 January 2023

Responsible Department Finance Department

Responsible Manager Steve Jones

Mae yno gategorïau arbennig o ddata personol sy'n fwy sensitif ac sy'n galw am gael eu diogelu ar lefel uwch. Rydym yn casglu, yn storio ac yn defnyddio'r wybodaeth bersonol ganlynol amdanoch chi, sy'n perthyn i gategorïau arbennig:

- Gwybodaeth am eich hil neu'ch ethnigrwydd
- Barnau gwleidyddol
- Credoau crefyddol neu athronyddol
- Aelodaeth Undebau Llafur
- Gwybodaeth enetig
- Gwybodaeth fiometreg
- Iechyd yn cynnwys iechyd corfforol ac iechyd meddyliol
- Gwybodaeth am fywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol

Rydym yn egluro'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir i gasglu'r wybodaeth hon amdanoch yn rhan 4 o'r hysbysiad preifatrwydd hwn.

4. Y MODD YR YDYM YN DEFNYDDIO'CH DATA PERSONOL

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn gweithredu drwy dderbyn gwahanol fathau o ddata a ddarparir i ni gan sefydliadau, o wahanol systemau gwybodaeth, mewn meysydd megis:

- Cyflogres
- Pensiynau
- Tai cymdeithasol
- Budd-daliadau tai
- Budd-daliadau gwladwriaethol eraill
- Gwobrau myfyrwyr
- Taliadau i gyflenwyr
- Eithriadau GIG
- Cofnod o farwolaeth

Gallwch weld manyleb lawn y data ar [wefan benodedig y llywodraeth](#).

Efallai y byddwn yn rhannu'r wybodaeth a ddarparir i ni gyda chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus neu, lle rydym yn ymgymryd â swyddogaeth gyhoeddus, er mwyn atal a dod o hyd i dwyll.

Caiff y wybodaeth a ddarparir ei mewnbynnu i gronfa ddata ddiogel, sydd wedi ei chynllunio i groes-baru eitemau o wybodaeth ac adnabod:

- Twyll posib
- Gweithgarwch anaddas
- Taliadau gwallus

Byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol ychwanegol yn ystod ein swyddogaethau fel rhan o'n gwaith i'r Cyngor a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i chi drwy gydol eich cyswllt â ni. Am ragor o wybodaeth ynghylch sut defnyddir eich gwybodaeth bersonol gan wasanaethau eraill gweler ein [hysbysiad preifatrwydd](#).

5. SAIL GYFREITHIOL DROS BROSESU

Dim ond mewn achosion lle mae deddfwriaethau data'n caniatáu i ni wneud hynny, y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol. Bydd yr achlysuron hynny'n y cynnwys y darpariaethau a amlinellir yn [Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu](#) a, lle bo hynny'n berthnasol, yn y [Ddeddf Diogelu Data 2018](#). Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol dan yr amgylchiadau canlynol:

Cymal 6(1)(c) sy'n ymwneud â goblygiadau cyfreithiol.

Mae'r defnydd o ddata gan Swyddfa'r Cabinet mewn ymgyrch croes-baru yn cael ei weithredu yn unol â'r awdurdod statudol yn Rhan 6 o'r Ddeddf Archwilio ac Atebolrwydd 2014 rhan s12(4) ac s33 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, sy'n disgrifio ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau dros arian cyhoeddus y Prif Swyddog Cyllid.

Yn unol â'r Ddeddf Archwilio ac Atebolrwydd, rydym yn gyfrannog gorfodol yn Y Fenter Twyll Genedlaethol ac o ganlyniad mae'n ofynnol ein bod ni'n darparu'r wybodaeth ganlynol i Swyddfa'r Cabinet fel rhan o'r ymgyrch paru data:

- Cerdyn parcio'r Bathodyn Glas
- Hanes credydwyr
- Data sefydlog credydwyr
- Cerdyn teithio rhatach
- Pensiynau gohiriedig
- Cyllid personol
- Pensiwn cyflogres
- Cyflogres
- Cartrefi gofal preswyl preifat

6. RHANNU'CH DATA PERSONOL

Bydd data'n cael ei gyflwyno i Swyddfa'r Cabinet ac yn cael ei rannu gyda chyfranogwyr eraill y Fenter Twyll Genedlaethol yn cynnwys sefydliadau cyhoeddus a phreifat. Mae Swyddfa'r Cabinet yn rhannu data fel sy'n rhaid er mwyn atal a dod o hyd i dwyll gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Os ydy'r data a gyflwynwyd gan un cyfranogwr yn debyg i ddata a gyflwynwyd gan un arall, bydd Archwilio Cymru efallai'n rhannu gwybodaeth gryno gyda'r naill a'r llall.

Mae'r data sydd wedi parhau gyda data o rywle arall yn cael eu dychwelyd i ni mewn cyfres o adroddiadau. Arolygir y data er mwyn penderfynu a ydynt yn arwyddocaol ac, os felly, byddwn yn caniatáu ymchwiliadau pellach. Mae'r adroddiadau a ddychwelir i ni yn cynnwys:

- Unigolion sy'n hawlio budd-daliadau mewn mwy nag un awdurdod lleol
- Unigolion sydd ar gyflogres ac sydd hefyd yn hawlio budd-daliadau
- Unigolion sydd wedi eu cofnodi ar fwy nag un gyflogres
- Ceiswyr lloches aflwyddiannus neu nad sydd a'r hawl i weithio yn y DU
- Taliadau dyblyg i gyflenwyr

Bydd adroddiad sy'n amlygu staff sydd wedi eu cyflogi gan fwy nag un o'r cyfranogwyr yn cael eu defnyddio i arddangos ein dyletswydd gofal dros y gweithwyr hynny, er mwyn cadarnhau bod eu horiau gwaith o fewn y terfynau a osodwyd gan Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith.

Efallai y bydd achlysuron pan fydd yn rhaid i ni rannu'ch gwybodaeth bersonol gyda Llywodraeth Cymru am resymau ystadegol neu ddadansodol. Defnyddir y wybodaeth bersonol sy'n cael ei chadw gennym, gan Lywodraeth Cymru er mwyn iddynt reoleiddio'r ffordd rydym yn cyflawni'n cyfrifoldebau cyhoeddus.

Ni fyddwn yn trosglwyddo'ch data i unrhyw wlad y tu allan i'r [Ardal Economaidd Ewropeaidd](#). Os gwnawn ni, byddwn yn rhoi gwybod ichi cyn gynted â phosib. At hynny, gallwch ddisgwyl graddau cyffelyb o ddiogelwch ar gyfer eich gwybodaeth bersonol.

7. AM BA HYD YR YDYM YN CADW EICH GWYBODAETH BERSONOL

Dim ond am gyn hired ag sy'n ofynnol i gyflawni dibenion casglu'r wybodaeth y byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd.

Mae'r gwaith o dynnu data sy'n cael ei baratoi er mwyn ei gyflwyno i'r Fenter Twyll Genedlaethol a data sydd wedi ei lwarlwytho o Swyddfa'r Cabinet yn cael ei gadw gennym nes bod ymgyrch nesaf y Fenter Twyll Genedlaethol yn cychwyn. Yn ogystal â hynny, byddwn yn cyflwyno adroddiadau cynnydd parthed y canlyniadau a gafwyd wrth gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol, i'n Pwyllgor Archwilio. Byddwn yn gwaredu ar eich data'n ddiogel neu yn ei gadw dan ffug enw pan nad oes angen y data arnom ragor.

Mae gan [Swyddfa'r Cabinet bolisi preifatrwydd a chyfnod cadw](#) ei hunan fydd yn darparu gwybodaeth bellach ynghylch pa mor hir maent yn cadw cofnodion at y dibenion hyn.

Ceir gwybodaeth ynghylch cyfnodau cadw gwahanol agweddau o'ch data personol yn ein Polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein gwefan (<https://www.merthyr.gov.uk/resident/?lang=cy-GB>)

8. Y MODD YR YDYM YN CADW EICH GWYBODAETH BERSONOL YN DDIOGEL

Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith er mwyn atal eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli'n ddamweiniol, rhag cael ei defnyddio neu'i chyrchu mewn ffordd heb ei hawdurdodi. Rydym yn cyfyngu mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r staff sydd angen gwybod y manylion yn unig. Dim ond yn unol â'n cyfarwyddiadau ni y byddant yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol ac mae ganddynt ddyletswydd cyfrinachedd.

Rydym wedi sefydlu gweithdrefnau i ddelio ag unrhyw achos posibl o dorri mesurau diogelu data a byddwn yn rhoi gwybod i chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol am hyn pan fo raid i ni wneud hynny o dan y gyfraith. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ynghylch y modd rydym yn cadw'ch gwybodaeth bersonol yn ddiogel drwy gysylltu gyda'n Swyddog Diogelwch information.security@merthyr.gov.uk.

9. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

Mewn amgylchiadau penodol, mae gennych hawliau o dan gyfreithiau diogelu data mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol. Amlinellir y rhain yn y GDPR ac maent yn cynnwys:

- Yr hawl i gywiro – mae gennych yr hawl i ofyn bod y wybodaeth sydd gennym amdanoch, yn cael ei chywiro.
- Efallai bod yr hawl i gyfyngu prosesu yn berthnasol – gallwch ofyn i ni atal rhag prosesu'ch data personol, fodd bynnag gallai hwn achosi i ni oedi neu'n hatal yn gyfan gwbl rhag darparu gwasanaeth i chi. Byddwn yn ceisio cydymffurfio gyda'ch cais ond efallai y bydd gofyn i ni gadw neu brosesu gwybodaeth er mwyn i ni ufuddhau i'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i beidio â bod yn destun i benderfynu na phroffilio awtomatig.
- Yr hawl i fynediad – mae gennych yr hawl i ofyn i ni am gopiâu o'ch gwybodaeth bersonol. Er mwyn gwneud cais, cysylltwch â'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth.

Mae'n bwysig bod y wybodaeth bersonol sydd gennym ar eich cyfer yn gywir ac yn gyfredol. Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i'ch gwybodaeth bersonol er mwyn i ni ddiweddarau'n cofnodion.

Os hoffech arolygu, gadarnhau, neu gywiro eich gwybodaeth bersonol cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data'n ysgrifenedig gan ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd ar frig yr hysbysiad hwn.

10. MANYLION PELLACH

Mae gennych hefyd yr hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i'n Swyddog Diogelu Data, mae'r manylion cyswllt ar frig y dudalen, neu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwylio'r Deyrnas Unedig ynghylch materion diogelu data:

Cyfeiriad: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2il Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd CF10 2HH
E-bost: wales@ico.org.uk
Ffôn: 0330 414 6421

Os ydych yn chwilio am ragor o wybodaeth ynghylch sut rydym yn prosesu'ch data personol yn cynnwys diogelu data, cadw data a hawliau unigol gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yn llawn. Gallwch hefyd gael gwybodaeth yn uniongyrchol o wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), www.ico.org.uk.